




Tasg 1

Blasus?


Darllenwch.

		
	Bwyta sliperi? Ych a fi! Dw i ddim eisiau bwyta sliperi! Dim diolch! Ffion	
	Dw i ddim eisiau bwyta sliperi. Mae'r sliperi bara'n wirion. Maen nhw'n dwp! Sam	
	Mae'r llaw Bwda yn edrych yn ofnadwy. Mae fitamin C mewn ffrwythau sitrws fel orennau ... ond llaw Bwda? Ych a fi! Lyn	
	Mae melonau'n flasus iawn ac maen nhw'n dda i chi. Mae'r melonau sgwâr yn syniad da iawn achos maen nhw'n ffitio i mewn i focsys sgwâr ... ac mae'r bocsys sgwâr yn ffitio i mewn i lorïau ... ac maen nhw'n ffitio ar y silffoedd mewn siopau. Syniad da! Yohei	
	Melonau sgwâr? Wel, beth am giwcymbr siâp calon. Beth ydych chi'n feddwl? John	




	Ciwcybr siâp calon – syniad da iawn. Mae'n anrheg neis iawn i roi i gariad. Lyn
	Anrheg neis?!? Ciwcybr?!? Bobl bach! Dw i ddim eisiau ciwcybr siâp calon ... na melon sgwâr ... na sliperi bara ... na llaw Bwda. Mae ciwcybrau'n hir! Mae melonau'n grwn. Beth sy'n bod ar bawb? Alice
CHI	

Help	
gwirion	daft, silly
twp	daft, silly
Ych a fi!	Yuck!
silff,-oedd	shelf, shelves
siâp calon	heart-shaped
anrheg	present
hir	long
crwn	round
Beth sy'n bod ar bawb?	What's the matter with everyone?



1. Ticiwch **Barn** neu **Ffaith**.

		Barn	Ffaith
1.	Mae fitamin C mewn ffrwythau sitrws fel orennau.		
2.	Ych a fi!		
3.	Mae melonau'n flasus iawn.		
4.	Mae'r melonau sgwâr yn edrych yn neis iawn.		
5.	Maen nhw'n ffitio i mewn i focsys sgwâr.		
6.	Syniad da!		
7.	Mae melonau'n dda i chi.		
8.	Mae ciwcymbr siâp calon yn anrheg neis i roi i gariad.		
9.	Mae ciwcymbr yn hir fel arfer.		
10.	Mae melon yn grwn fel arfer.		



2. Beth ydych chi'n feddwl o ...?

Ysgrifennwch yn y grid. Gofynnwch i'ch partneriaid chi hefyd.



Tatws stwnsh lliwgar (gyda betys, pys a saffron)

Hufen iâ mewn esgid

Chi:	
Partner 1:	
Partner 2:	
Partner 3:	